

Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)
Cyfarfod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar
Weithrediadau, Canllawiau a Hyfforddiant
12 Medi 2019
Crynodeb o'r cyfarfod

1. Croeso a chyflwyniadau

Estynnodd Llywodraeth Cymru groeso i'r sawl a oedd yn bresennol i gyfarfod cyntaf y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Weithrediadau, Canllawiau a Hyfforddiant, a chyflwynodd yr aelodau eu hunain.

2. Trosolwg o'r Bil a diweddariad yn ei gylch

Rhoddodd Llywodraeth Cymru drosolwg o sefyllfa bresennol y Bil a chyflwynodd fideo Llywodraeth Cymru sy'n esbonio'r Bil. Cytunodd i'w ddsbarthu i'r aelodau.

3. Cytuno ar rychwant y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Weithrediadau

Bu'r aelodau yn ystyried ac yn trafod rychwant y grŵp a dulliau posibl o fwrw ymlaen â'r gwaith. Cytunwyd y byddai deall prosesau, canllawiau a llwybrau atgyfeirio presennol yn allweddol.

Cytunwyd y dylai'r grŵp fapio'r canllawiau a'r prosesau atgyfeirio presennol er mwyn hybu dealltwriaeth. Byddai cam cyntaf y gwaith yn ymwneud â mapio canllawiau a byddai'r ail gam yn cynnwys ystyried pa hyfforddiant a allai fod yn ofynnol.

Cydnabuwyd bod gwaith y grŵp hwn yn gorgyffwrdd â gwaith rhai o'r grwpiau gorchwyl a gorffen eraill, Byddai sicrhau eglurder ynghylch rychwant pob grŵp a rhannu gwybodaeth rhyngddynt yn rheolaidd yn bwysig. Cytunodd Llywodraeth Cymru i ystyried sut y dylid datblygu hynny'n rhan o'r cynllun gweithredu cyffredinol.

4. Cytuno ar gylch gwaith drafft

Bu'r aelodau yn trafod y cylch gwaith, a oedd yn cynnwys trefniadau cadeirio'r grŵp, enwebu arweinwyr o sefydliadau allweddol i gydlynu'r gwaith y byddai angen ei wneud mewn amryw sectorau, amserau cyfarfodydd y grŵp a pha mor rheolaidd y byddent yn cael eu cynnal. Cytunwyd ar y cylch gwaith ar gyfer y grŵp gorchwyl a gorffen.

5. Sesiwn y prynhawn – gweithdai ynghylch pwyntiau trafod allweddol

Cafodd dau grŵp eu ffurfio ar gyfer gweithdai er mwyn deall sut y mae dulliau ymarfer, gweithdrefnau a sefydliadau presennol yn gweithredu a deall eu perthynas â'r canllawiau presennol; ac ystyried hyfforddiant yn awr ac yn y dyfodol. Tynnodd yr aelodau sylw at ddogfennau canllawiau hanfodol yn ogystal â'r sectorau y byddai angen eu cynnwys mewn cynlluniau i ddiweddarau canllawiau a rhoi hyfforddiant.

6. Camau nesaf

Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddiwedd mis Chwefror 2020.